Carreg Lam, Heol Yr Orsaf, Tre Griffith, Pont-y-Pŵl, Torfaen, NP4 5JH
01495 762581
carreg-lam@torfaen.gov.uk
www.carreg-lam.com
Arweinydd / Leader: Dr. Matthew James Williamson-Dicken, MA(Ed), PGCert, BA(Hons), CMgr FCMI
Dirprwy Arweinydd / Deputy Leader: Mrs. Carys Soper

# Cyfoethogi Caffaeliad Iaith

## Ystumiau yn y Dull Integredig Carlam (AIM)

## Prosiect Tokyo Astudiaeth Achos 1

**Phillips, N., Blackmore, R., Childs, D., Powles, A., Soper, C., Stokes, M. & Williamson-Dicken, M. (2025)**




Yn ystod ein hymweliad â'r Ysgol Brydeinig yn Tokyo, buom yn arsylwi ar weithredu'r Dull Integredig Carlam (AIM) ar gyfer caffaeliad iaith. Datblygwyd AIM yn y 1990au gan yr addysgwraig o Ganada, Wendy Maxwell, ac mae'n ddull trochi ac amlfoddol dwys sy'n cyfuno ystumiau, drama, cerddoriaeth, adrodd straeon ac ailadrodd mewn ffordd strwythuredig, i feithrin rhuglder yn gyflym.

Dechreuodd Wendy Maxwell ei gyrfa ym 1984 fel athrawes Ffrangeg yn Columbia Brydeinig. Roedd hi'n rhwystredig nad oedd ei dysgwyr yn dod yn rhugl trwy gyfarwyddyd confensiynol, ac felly aildrefnodd ei chwricwlwm yn sylweddol. Creodd Maxwell ddull "tameidiau iaith " trwy nodi geiriau a strwythurau a oedd yn dod i fyny'n aml, a'u plethu i mewn i ddramâu, caneuon a straeon a oedd yn hyrwyddo cydweithio a hyder ar lafar ar gam cynnar. I atgyfnerthu'r dysgu hwn, cyflwynodd ystumiau syml, bwriadol ar gyfer pob gair, gan lansio egwyddor sylfaenol "dull ystumiau" AIM. Trwy'r addysgeg amlsynhwyraidd hon (gwrando, gweld, siarad, ysgrifennu a gwneud yr iaith yn gorfforol) dechreuodd dysgwyr ddod yn rhugl go iawn o'r wers gyntaf un.

Yn 2004, cyd-sefydlodd Maxwell 'AIM Language Learning', gan ehangu'r fethodoleg ar draws y byd. Mae ei gwaith wedi ennill nifer o wobrau uchel eu bri: Gwobr Prif Weinidog Canada am Ragoriaeth ym maes Addysgu (1999), Gwobr H.H. Stern am Arloesi ym maes Ail Iaith (2004), a chydnabyddiaeth am arloesi gan Siambr Fasnach Gogledd Vancouver (2015). Ers hynny, mae AIM wedi cael ei weithredu ar draws y byd ac mae'n cael ei gefnogi gan hyfforddiant helaeth i athrawon ac adnoddau wedi eu cyhoeddi. Mae Maxwell ei hun wedi ysgrifennu bron i 100 o lyfrau cyfarwyddyd.

Trwy dorri'r iaith yn dameidiau bach, atgyfnerthu gydag ystumiau ac addysgeg integredig sy'n defnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol, mae Maxwell wedi trawsnewid dysgu ieithoedd yn brofiad gweithredol, cynhwysol ac effeithiol sy'n cyd-fynd yn dda â'r ffordd y mae dysgwyr yn caffael ar ieithoedd yn naturiol. Gwelir enghraifft berffaith o hyn ar waith yn ystafelloedd dosbarth bywiog yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo. Mae'r astudiaeth achos hon yn archwilio sut mae ystumiau'n gweithio o fewn AIM a'r manteision maen nhw'n eu cynnig, yn enwedig mewn cyferbyniad ag arferion addysgu ieithoedd traddodiadol yng Nghymru.

### Ystumiau fel Angorau Semantig

Yn yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo mae pob gair yn cael ei baru ag ystum benodol, fwriadol sy'n dilyn methodoleg AIM. Mae'r ystumiau hyn wedi'u dylunio i gynrychioli ystyr y gair yn weledol ac yn ginesthetig. Mae'r paru hwn yn creu angor semantig gweledol sy'n giw corfforol sy'n atgyfnerthu ystyr ac yn gymorth i gofio'r gair. Mae geirfa yn dod yn ail natur i ddysgwyr heb iddynt orfod dibynnu ar gyfieithu, ac felly mae'r caffaeliad iaith yn fwy naturiol. Mae'r Ysgol Brydeinig yn Tokyo yn atgyfnerthu hyn ym mhob gwers a arsylwyd; o Ffrangeg i Fathemateg i Japaneeg dangoswyd hyblygrwydd ac effeithiolrwydd dysgu ar sail ystumiau ar draws ystod y pynciau.

Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen · Carreg Lam · Ysgol Panteg · Ariennir gan / Funded by Taith · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

## Dysgu Amlfoddol

Mae ystumiau'n galw ar sawl modd synhwyraidd: gweledol (gweld yr ystum), clywedol (clywed y gair), a chinesthetig (perfformio'r ystum). Mae'r dull amlfoddol hwn yn cyd-fynd ag ymchwil gwybyddol sy'n dangos bod dysgu'n fwy effeithiol pan fydd nifer o synhwyrau yn cael eu defnyddio. Mae'n cefnogi arddulliau dysgu amrywiol, gan gynnwys y rheiny sy'n elwa ar symudiad a chiwiau gweledol, ac mae'n gwella ymgysylltiad yn gyffredinol. Roedd y dysgu amlfoddol hwn yn amlwg ym mhob ystafell ddosbarth yn yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo, ac atgyfnerthwyd y cysondeb mewn addysgeg wrth i'r holl athrawon symud o un ystafell ddosbarth i'r llall, gan addysgu caffaeliad iaith mewn amrywiol ieithoedd ar draws adran iau'r ysgol.

Mae ymgorffori ystumiau wrth addysgu caffaeliad iaith yn cynnig sawl budd:

- Cofio'n well: mae symudiadau corfforol yn atgyfnerthu'r cof;
- Rhuglder gwell: mae ystumiau'n cefnogi'r gallu i adalw strwythurau yn awtomatig;
- Ymgysylltiad amlfoddol: yn cyfuno dysgu gweledol, clywedol a chinesthetig;
- Addysgu cynhwysol: yn cefnogi arddulliau ac anghenion dysgu amrywiol.

Gall athrawon ddylunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar ystumiau, er enghraifft gêmau adeiladu brawddegau, ymarferion cysylltu berfau, ac ymarferion adrodd straeon, i integreiddio'r dull hwn yn eu hystafelloedd dosbarth.

## Dealltwriaeth Chwim Heb Gyfieithu

Mae ystafelloedd dosbarth AIM yn defnyddio ystumiau i ddileu'r angen i gyfieithu'n uniongyrchol. Mae athrawon yn cyflwyno geiriau newydd trwy berfformio'r ystum a dweud y gair yn yr iaith darged. Mae dysgwyr yn cysylltu'r ystum yn gyflym â'r ystyr, gan osgoi'r angen i gyfieithu i'w hiaith gyntaf. Mae'r dechneg drochi hon yn cyflymu dealltwriaeth ac yn helpu dysgwyr i feddwl yn uniongyrchol yn yr iaith darged.

## Sgaffaldu'r Broses o Adeiladu Brawddegau

Defnyddir ystumiau ar gyfer geiriau unigol ond yn fwy na hynny i sgaffaldu brawddegau cyfain hefyd. Wrth i ddysgwyr ddod i ddeall strwythurau brawddegau, maen nhw'n defnyddio ystumiau i gynrychioli pob elfen, gan eu helpu i weld y patrymau gramadegol, cofio trefn geiriau, a magu rhuglder trwy gof y cyhyrau. Er enghraifft, roedd un patrwm a arsylwyd yn dangos sut i adeiladu'r frawddeg わたしはがっこうにいきたいです (Dw i eisiau mynd i'r ysgol) gan ddefnyddio ystumiau ar gyfer pob gair neu gymal:

- わたしは (Dw i [rhagenw]) – ystum ar gyfer chi'ch hun a marciwr pwnc
- がっこうに (i'r ysgol) – ystum sy'n dangos cyfeiriad neu leoliad
- いきたいです (eisiau mynd) – ystum sy'n dangos symudiad ac awydd

Mae'r dull hwn yn atgyfnerthu'r gystrawen a'r ystyr ar yr un pryd, gan gefnogi dysgwyr i feistroli strwythur brawddegau Japaneeg trwy ddysgu wedi'i ymgorffori.

## Atgyfnerthu Rhediad y Ferf

Mae ystumiau yn gallu gwahaniaethu rhwng ffurfiau ac amserau'r ferf. Er enghraifft, gellid paru'r ferf yn amser y presennol いきます (mynd) gydag ystum symud ymlaen, tra gallai amser y gorffennol いきました (aeth) gynnwys symudiad yn ôl i nodi newid mewn amser. Mae'r ciw corfforol hwn yn helpu dysgwyr i fewnoli patrymau rhedeg y ferf heb ddibynnu'n llwyr ar reolau gramadegol haniaethol. Daw'r ystum yn ysgogiad ar gyfer y ffurf gywir, gan gefnogi cywirdeb gramadegol a rhuglder.

## Cefnogi Geiriau Swyddogaethol a Geirynnau Gramadeg

Yn aml, anwybyddir geiriau swyddogaethol fel cymalau a chysyllteiriau wrth addysgu yn y ffordd draddodiadol. Yn AIM, mae gan bob un ystum gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n weithredol a'u deall yn eu cyd-destun. Er enghraifft, gellid cynrychioli'r goddrych gydag ystum sy'n gosod y llwyfan, a gallai'r cyfeiriad neu'r lleoliad gynnwys symudiad pwyntio. Mae hyn yn meithrin cywirdeb gramadegol a rhuglder, wrth i ddysgwyr gynnwys y cydrannau hanfodol hyn yn gyson yn eu lleferydd a'u hysgrifennu.

**Lleihau'r Llwyth Gwybyddol**

Mae defnyddio ystumiau yn caniatáu i ddysgwyr symud rhywfaint o'r ymdrech wybyddol i'w cof corfforol, gan ryddhau'r lle meddyliol i ganolbwyntio ar ystyr a chyfathrebu yn hytrach na rheolau gramadeg. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr iau neu'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'n golygu bod y ramadeg yn fwy hygyrch ac yn llai bygythiol.

**Cywiro Gwallau Trwy Ystum**

Gall athrawon gywiro gwallau gramadeg heb eiriau trwy ailadrodd dilyniant cywir yr ystumiau. Mae hyn yn rhoi adborth sydyn ac uniongyrchol, yn atgyfnerthu gramadeg gywir, ac yn cynnal y broses o drochi yn yr iaith darged. Mae'n golygu bod modd cywiro'n gynnil ac yn effeithiol heb darfu ar lif y cyfathrebu ac mae'n atgyfnerthu meddylfryd o dyfu a dysgu trwy gamgymeriadau.

**Gramadeg fel Patrwm, Nid fel Rheol**

Mae ystumiau'n trawsnewid gramadeg o set o reolau haniaethol i batrwm o symudiadau a sain. Mae hyn yn adlewyrchu sut mae plant yn caffael ar eu hiaith gyntaf trwy ddod i gysylltiad â phatrymau dro ar ôl tro yn hytrach na chyfarwyddyd ffurfiol. Mae dull ystumiau AIM yn golygu bod gramadeg yn dod yn reddfol ac yn cael ei hymgorffori, gan arwain at ddealltwriaeth ddyfnach a chofio dwysach.

**Enghreifftiau o Ystumiau Japaneeg**

Yng nghyd-destun caffael yr iaith Japaneeg, mae ystumiau AIM yn cael eu haddasu i adlewyrchu ciwiau sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Er enghraifft:

- Addysgir y ferf "taberu" (bwyta) gyda symudiad llaw-i'r-geg, gan efelychu'r weithred o fwyta.
- Mae "Miru" (edrych) yn cael ei baru ag ystum sy'n debyg i ddal binocwlars neu fframio'r llygaid.
- Ar gyfer "Kiku" (gwrando) gellir cwpanu'r glust.
- Gellid cynrychioli "Aruku" (cerdded) trwy symud y dwylo bob yn ail i efelychu cerdded.

Mae'r ystumiau hyn yn helpu dysgwyr i gysylltu gweithredoedd corfforol â chysyniadau iaith haniaethol, gan atgyfnerthu ystyr a chefnogi cof hirdymor. Maent hefyd yn darparu ffordd gyffredinol a chynhwysol i ddysgwyr o bob cefndir gael mynediad at eirfa a gramadeg Japaneeg, a'u cofio'n reddfol.

**Goblygiadau i Ysgolion yng Nghymru**

Mae'r defnydd cyson o ystumiau yn AIM yn cynnig gwersi gwerthfawr i ysgolion yng Nghymru sy'n ceisio gwella canlyniadau caffaeliad iaith. Trwy fabwysiadu addysgeg unedig, sy'n seiliedig ar ystumiau, â chysondeb, ar draws ystafelloedd dosbarth, gall ysgolion Cymru:

- Hyrwyddo'r gallu i ffurfio geiriau a hyder wrth siarad ar gam cynnar;
- Lleihau dibyniaeth ar gyfieithu ac annog dysgu trwy drochi;
- Cefnogi dysgwyr amrywiol trwy ymgysylltu amlfoddol;
- Gwella'r gallu i gofio geirfa a gramadeg trwy atgyfnerthu'n gorfforol;
- Meithrin cysondeb mewn arferion addysgu ar draws grwpiau blwyddyn ac ysgolion.

Gallai datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar egwyddorion AIM, yn enwedig y defnydd o ystumiau, iaith wedi ei thorri i lawr yn ddarnau llai, ac integreiddio'r celfyddydau, rymuso addysgwyr Cymru i weithredu'r strategaethau hyn yn effeithiol. Byddai dull ysgol-gyfan a rhyng-ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr yn dysgu iaith mewn ffordd gydlynol, ddeniadol a chynhwysol, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd.

**Casgliad**

Dangosodd ein harsylwadau yn yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo nad offerynnau i gefnogi yn unig yw ystumiau yn AIM. Maent yn greiddiol i lwyddiant y dull. Trwy ymgorffori gramadeg gyda symudiadau corfforol, mae AIM yn galluogi dysgwyr i fewnoli strwythurau cymhleth yn naturiol ac yn hyderus. O gymharu â dulliau traddodiadol yng Nghymru, sy'n aml yn dibynnu ar gyfieithu a chyfarwyddyd sy'n seiliedig ar reolau, mae addysgeg AIM sy'n seiliedig ar ystumiau yn cynnig opsiwn deinamig, cynhwysol ac effeithiol ar gyfer cyflymu caffaeliad iaith. O

addasu'r dull yn feddylgar a'i weithredu â chysondeb, gall ysgolion Cymru ffrwyno pŵer AIM i drawsnewid canlyniadau dysgu ieithoedd ar draws y cwricwlwm.

**Cyfeiriadau**


Goldin-Meadow, S. (2003) *Hearing Gesture: How Our Hands Help Us Think*. Harvard University Press.

Iizuka, T., Nakatsukasa, K., & Braver, A. (2020) The efficacy of gesture on second language pronunciation: An exploratory study of handclapping as a classroom instructional tool. *Language Learning*, 00(0), 1–37. https://doi.org/10.1111/lang.12415

Jusslin, S., Korpinen, K., Lilja, N., Martin, R., Lehtinen-Schnabel, J., & Anttila, E. (2022) Embodied learning and teaching approaches in language education: A mixed studies review. *Educational Research Review*, 37, 100480.

Macedonia, M., & Knösche, T. R. (2011) Body in mind: How gestures empower foreign language learning. *Mind, Brain, and Education*, 5(4), 196–211.

Maxwell, W. (n.d.). AIM Language Learning. Available at: https://aimlanguagelearning.com [Darllenwyd ar 5 Tachwedd, 2025].

Stam, G., & Urbanski, K. (Eds.). (2022) *Gesture and Multimodality in Second Language Acquisition: A Research Guide*. Routledge. https://doi.org/10.4324/9781003100683

Sweller, N., Shinooka-Phelan, A., & Austin, E. (2020) The effects of observing and producing gestures on Japanese word learning. *Acta Psychologica*, 207, Article 103079. https://doi.org/10.1016/j.actpsy.2020.103079

Tellier, M. (2008). The effect of gestures on second language memorisation by young children. *Gesture*, 8(2), 219–235.